Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

**11 Ebrill/April, 2018**

At : Aelodau Cygnor Sir Ynys Môn fel ymddiriedolwr
Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

Annwyl Aelod,

**CYFARFOD O'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Gofynnir i chwi fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar **ddydd Mawrth, 17 Ebrill, 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni am 2.00 o'r gloch yb** i ystyried y materion a nodir yn y rhaglen atodol.

Yr eiddoch yn gywir,
*Dr Gwynne Jones*
**YSGRIFENNYDD**

To : Members of the Isle of Anglesey County Council as Trustee
of the Isle of Anglesey Charitable Trust

Dear Member,

**MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY CHRITABLE TRUST**

Your attendance is requested at a meeting of the Isle of Anglesey Charitable Trust on **Tuesday, 17 April, 2018 to be held at the Council Chamber, Council Offices, Llangefni at 2.00 p.m.,** to consider the matters noted in the attached agenda.

Yours sincerely,
*Dr Gwynne Jones*
**SECRETARY**

**Ysgrifennydd/Secretary :** Dr. Gwynne Jones **Trysorydd/Treasurer :** Mr. Marc Jones

**Swyddfa'r Sir/County Offices,**
**Llangefni, Ynys Môn. LL77 7TW. Tel: (01248) 750057**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem of fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 28 Chwefror, 2018.
- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 27 Mawrth, 2018.

3 **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL** (Tudalennau 7 - 12)

**Pwyllgor Adfywio**

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 14 Chwefror, 2018
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 13 Mawrth, 2018

4 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

5 **CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2018/19** (Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>RO Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, R Ll Jones, G O Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE, Shaun James Redmond, J A Roberts , Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Carwyn Jones, A M Jones, R.Meirion Jones, Dylan Rees ac Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Cynrychiolwyr o Bwyllgor Cais Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn 2025**<br><br>Stephen Edwards, Greg Evans a Gwenno Hughes. |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr R O Jones ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 - Cais Grant – Gemau'r Ynysoedd. Cymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater wedi iddo gael cyngor cyfreithiol.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018 fel rhai cywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A (Categori 16) y Ddeddf."**

**4 CAIS GRANT – GEMAU'R YNYSOEDD**

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Ysgrifennydd mewn perthynas â chais a gafwyd am gymorth ariannol i gynnal Gemau'r Ynysoedd yn Ynys Môn yn 2025.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o Bwyllgor Cais Gemau'r Ynysoedd Ynys Môn 2025 ac fe gafodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol gyflwyniad manwl ganddynt. Yn dilyn sesiwn holi ac ateb, gadawodd y cynrychiolwyr y cyfarfod cyn i'r cais gael ei drafod.

Anerchwyd y cyfarfod gan yr Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD: -**

- **Bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn cefnogi'r cais, mewn egwyddor, a'i bod yn gosod amodau i sicrhau gwariant elusennol priodol;**
- **Bod angen Cynllun Busnes llawn sy'n nodi'n glir i ba ddibenion y bydd arian yr elusen yn cael eu gwario a bod unrhyw drefniadau ar gyfer rhyddhau arian yn amodol ar dderbyn prawf bod meini prawf y flwyddyn flaenorol wedi'u bodloni o dan y Cynllun Busnes os yn berthnasol;**
- **Rhoi pŵer dirprwyedig i'r Ysgrifennydd (mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol, y Trysorydd ac unrhyw Swyddogion eraill fel y gwêl yr Ysgrifennydd yn briodol) i osod unrhyw amodau ar unrhyw grant neu ymrwymiad er mwyn diogelu priodoldeb gwario arian elusennol;**
- **Bod yr amodau a osodir yn cynnwys amod bod raid adrodd ar y mater eto i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn cyn rhyddhau unrhyw arian o'r fath.**

**Trefor Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**

1

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | T Ll Hughes MBE (Cadeirydd)<br>Richard Owain Jones (Is-gadeirydd)<br><br>R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Carwyn Jones, G O Jones, Eric Wyn Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts a Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd<br><br>**Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi Gyda CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Llinos Medi Huws, R Ll Jones, A M Jones, R.Meirion Jones, Bob G Parry OBE FRAgS, Shaun James Redmond, J A Roberts, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth Mr Trefor Ll Hughes ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 3 – Newid Prosiect – Parc Caergybi ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

Aeth yr Is-gadeirydd i'r Gadair ar gyfer y cyfarfod oherwydd fod y Cadeirydd wedi datgan diddordeb.

**CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod :-**

**"Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod ar y sail ei fod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

### 3 NEWID PROSIECT – PARC CAERGYBI

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ynghylch yr uchod.

**PENDERFYNWYD bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn cefnogi'r cais diwygiedig a chyflawni'r prosiect fesul cam ar yr amod y ceir cadarnhad fod Parc Caergybi wedi cael ei drosglwyddo i Gyngor Tref Caergybi.**

**Mr R O Jones**
**Is-gadeirydd yn y Gadair**

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Mri. John Griffith, Richard Griffiths, R.Meirion Jones, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAgS, J Arwel Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br>Cyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth Elusennol (i roi cyngor ynghylch Eitem 3).<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt wrth deitlau eu swyddi gyda CSYM o hyn ymlaen)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Thrysorlys (GR),<br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri. Carwyn Jones, Alun Roberts, Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr T Ll Hughes - Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Ailetholwyd Mr Bob Parry OBE FRAgS yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr J Arwel Roberts yn Is-Gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn: -

Datganodd Mr Richard Griffiths ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 12 Cymdeithas Dreftadaeth Ddiwydiannol Amlwch a Chais 15 Copperfest - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arnynt.

‘Roedd Mr Carwyn Jones wedi datgan diddordeb a oedd yn rhagfarnu yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 21 Côr Ieuenctid Môn - ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn cael cyngor cyfreithiol.

Datganodd Mr R Meirion Jones ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 8 Cwmni'r Fran Wen a Chais 34 Band Biwmares - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arnynt.

Datganodd Mr Bryan Owen ddiddordeb personol yn Eitem 6 - Ceisiadau am Grantiau Mawr yn 2018/19 - Cais 4 Neuadd Bentref Aberffraw a Chais 11 Tudur Cyf - a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a’r bleidlais arnynt.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, 2017.
*(Mabwysiadwyd y cofnodion gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn ar 18 Ebrill, 2017)*

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD: -**

**"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**6 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR YN 2018/19**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â cheisiadau a dderbyniwyd am Grantiau Mwy.

Dywedodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, wedi penderfynu argymell cyllideb o £350k ar gyfer Grantiau Mawr yn 2018/19. Cymeradwywyd y gyllideb hon gan gyfarfod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ar 24 Ionawr, 2018. Lansiwyd y broses ymgeisio ym mis Rhagfyr 2017 trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol. Gosodwyd hysbysebion hefyd yn y papurau newydd lleol a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 31 Ionawr, 2018. Gwahoddwyd ceisiadau am gyllid o fwy na £8,000 i gynorthwyo gyda phrosiectau cyfalaf mawr neu refeniw i ariannu gwasanaethau penodol a fyddai o fudd i bobl Ynys Môn. Rhaid i geisiadau fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- Cymorth i grwpiau dan anfantais;
- Adfywio'r economi leol;
- Gwella sgiliau;
- Lleihau tlodi;
- Gwarchod treftadaeth;
- Diogelu'r amgylchedd;
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â chwaraeon, iechyd a budd i'r gymuned;
- Datblygu ysbryd cymunedol a llesiant.

Yn y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017 penderfynwyd, er na waherddir ceisiadau gan sefydliadau a oedd wedi derbyn arian o'r gronfa Grantiau Mawr yn y pum mlynedd flaenorol, ni fyddai'r ceisiadau hynny'n cael sylw hyd nes y byddai'r holl geisiadau eraill wedi cael eu hystyried ac ar yr amod bod yr arian yn dal i fod ar gael.

Dywedodd y Trysorydd fod 34 o geisiadau wedi eu derbyn erbyn y dyddiad cau. Roedd manylion y ceisiadau a dderbyniwyd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i ystyried y ceisiadau, roedd Swyddogion wedi sgorio'r ceisiadau ymlaen llaw yn erbyn cyfres o feini prawf a ddefnyddiwyd yn flaenorol i asesu'r ceisiadau.

Derbyniodd y Pwyllgor fanylion cefndirol y ceisiadau gan y Swyddogion ac yn dilyn trafodaethau

**PENDERFYNWYD: -**

- **Rhoi sylw i 15 cais mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn;**

- **Cynghori un ymgeisydd i gyflwyno eu cais i gronfa grantiau bach yr Ymddiriedolaeth Elusennol.**

**Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS**
**Cadeirydd**

1

# Pwyllgor Adfywio

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Robert G Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)<br>Mr J Arwel Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, R. Meirion Jones, Eric Wyn Jones a Bryan Owen |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Rheolwr Grantiau (JW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Mri Carwyn Jones, Alun Roberts a Ieuan Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr T Ll Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br>Mr Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan:-

Mr Richard Griffiths – datganiad o diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr R Meirion Jones – datganiad o diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Band Biwmares, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Richard O Jones – datganiad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Cymdeithas Dreftadaeth Amlwch, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

Mr Bryan Owen – datganiad diddordeb sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/19 – Tudur Cyf, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

**2 COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2018 eu cadarnhau.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw.

## 4 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddodd y Trysorydd bod 34 o geisiadau wedi dod i law a'u bod wedi eu hystyried gan y Pwyllgor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018. Lluniodd y Pwyllgor restr fer o 15 o geisiadau grant a oedd angen eu hasesu mewn mwy o fanylder ac a oedd angen mwy o wybodaeth arnynt mewn perthynas â'r cais. Nodwyd bod y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, wedi penderfynu argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn y dylid rhyddhau £350k i ariannu grantiau mawr yn 2018. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn yr argymhelliad yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2018.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl mewn perthynas â'r 15 cais ar y rhestr fer ac fe BENDERFYNWYD argymell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn yn y cyfarfod a gynhelir ar 17 Ebrill, 2018:-

- Bod 14 o'r ceisiadau grant a gafodd eu rhoi ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi gyda 12 yn derbyn y swm y gofynnwyd amdano a 2 yn derbyn swm llai na'r hyn y gofynnwyd amdano;
- Bod 1 o'r 15 cais a roddwyd ar y rhestr fer yn aflwyddiannus;
- Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol Iawn gyda'r symiau a argymhellir fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Adfywio.

**Y Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS**
**Cadeirydd**

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

**GRANTIAU MAWR 2018/19 /**
**LARGE GRANTS 2018/19**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au)<br>Paragraph(s) 14 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |

Y PRAWF – THE TEST

| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
|---|---|
| Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw ynghylch sut mae ei ' cronfeydd yn cael eu defnyddio. | Mae'r adroddiad sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. |
| The Trust is open and transparent about how its' funds are being used. | The attached report contains commercially sensitive information. |

Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilëwch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]

Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh~~ the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]

Document is Restricted

This page is intentionally left blank